CYNGOR CYMDEITHAS
LLANNERCH-Y-MEDD
COMMUNITY COUNCIL

**25.03.21**
**7 pm**

# CYFARFOD LLAWN/ *FULL MEETING*
## *Cyfarfod ZOOM*
## *NODIADAU*

| | |
|---|---|
| **1** | **Croeso ac Ymddiheuriadau**<br>**Presennol:** JAJ (Cadeirydd); DW; TAJ; RJ; DP; AR; BJ;<br>**Ymddiheuriadau:** IW; GW; JOJ; DL; EO; DM<br>**Mynychu:** SWR ; Cyng. KH; Cyng LlMH |
| **2** | **Datgan Diddordeb**<br>Datganodd DAW ddiddordeb yn Eitem 5 Materion Cyllidol Cyflog Clerc<br>Datganodd KH ddiddordeb yn Eitem 7: Materion Cynllunio |
| **3** | **Cofnodion 25.02.21**<br>a) Cyflwynwyd a derbyniwyd cofnodion 25 Chwefror 2021 fel rhai cywir (DAW/TAJ)<br>b) Materion yn codi<br>Sedd Wag.<br>Adroddodd y Clerc bod Donna Mlynarczyk wedi dangos diddordeb ac wedi cyflwyno cais ffurfiol i'r Pwyllgor. Cychredwyd manylion am y cais ar ebost ac fe'i derbyniwyd yn unfrydol.<br>Gosod mainc yn y Sgwar<br>DW/TAJ i wneud ymweliad safle 9:30 bore Llun 29 Mawrth ac i weithredu gyda'r Clerc fel bo'r gofyn.<br>Diweddarwyd y Cynllun Gweithredu i greu fersiwn 25.03.21 |
| **4** | **Materion Trwy'r Gadair**<br>**DP –** cyfeiriodd at gynlluniau gan gwmni Lightsouce bp i ososd paneli solar ar yr Ynys. Nodwyd bod y cynlluniau arfaethedig wedi eu cylchredeg i'r aelodau eisoes. Eglurodd DP y byddai yn amharu yn fawr ar ei eiddo (ac ar eiddo eraill drwy'r Ynys o bosib) gyda thraffig heibio'r ty a difetha golygfa yn gyffredinol. Adroddwyd bod y brosiect y fwyaf |


Mrs Sydna Roberts
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383
sydnaroberts@btinternet.com

| | |
|---|---|
| | trwy Gymru yn defnyddio 1800 acer o dir ac mai'r Llywodraeth fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol. Dywedodd JAJ ei fod wedi ceisio ymuno a'r cyfarfod rhithiol drefnwyd gan y cwmni ond nid oedd modd gwneud cysylltiad. Nododd LlMH bod Cyngor Llanfechell yn gwneud cais am gyfarfod rhithiol arall ac fe gytunwyd i'r Clerc gysylltu gyda Clerc Mechell i geisio trefnu cyfarfod ar y cyd gyda'r Cwmni. Teg nodi bod cryn bryder am y datblygiad posib hwn ymysg yr aelodau.<br><br>Mynediad i'r ffordd fawr o Peniel – cytunwyd i'r Clerc holi Alun Roberts am y drefn i gael gosod drych pwrpasol i helpu gweledig<br><br>**TAJ -** cyfeiriodd at y tai newydd ger Capel Ifan. Cytunwyd i ofyn i CSYM am arwydd stryd ychwanegol yma – Stryd Glan Aber<br><br>**BJ –** soniodd am grant gan Grwp Cynefin i ymestyn y brosiect Te Bach i rai dros 70 oed a'r rhai hynny sy'n fregus yn ein cymuned. Nododd bod cwmni RPO Williams hefyd wedi addo cefnogaeth ariannol. Bydd y bwyd yn cael ei ddarparu gan Caffi Stesion ac fe nodwyd ei fod o safon uchel iawn. Diolchwyd i BJ am ei gwaith da parhaus.<br><br>**LlMH/KH –** adroddwyd ar waith y CSYM dros yr wythnosau diwethaf fel a ganlyn:-<br>• gwaith y Cyngor a chyfarfodydd yn parhau yn rithiol<br>• pwysau ychwanegol ar staff oherwydd y sefyllfa boenus gyfredol yng Nahaegybi o ganlyniad i ymlediad cymundeol.<br>• nifer o staff y Cyngor yn helpu ar y linell flaen e.e. yn y ganolfan TTP, galw drws i ddrws<br>• pryder am staff sy'n ceisio cynnal y ddelwedd 'busnes fel arfer'<br><br>Diolchodd DP am y diweddariad ac am holl waith staff y Cyngor Sir a chyfeiriodd yn arbennig at safon ardderchog cyfraniadau LlMH i'r Wasg. |
| **5** | **Materion Cyllidol a Thaliadau**<br><br>**Taliadau Misol**<br>**Gwariant ers cyfarfod Chwefror**<br>Ysgol Gynradd – rhodd tuag at archebu Bwrdd Gwyn i roi cymorth i staff ymdopi a dychweliad y disgyblion yn dilyn COVID 19 - £900<br>Scottish Power – cyflenwad Uned 1 - £51.50<br><br>**Biliau cyfredol**:<br>Bwrdd Dwr – cyflenwad Lawnt Fowlio - £24.10<br>Aled Moss – uwchraddio cyfrifadur y Clerc a gosod meic ar gyfer ZOOM - £395 |


Mrs Sydna Roberts sydnaroberts@btinternet.com
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383

| | |
|---|---|
| | Cafwyd diweddariad gan y Clerc am y sefyllfa ariannol gyfredol.<br><br>**Cyllideb 2021-22**<br>Adroddodd y Clerc bod yr Is Bwyllgor Cyllid wedi cyfarfod nos Lun 22 Mawrth. Cylchredwyd copi o'r Gyllideb a'r cofnodion eisoes a gwahoddwyd unrhyw ymholiad neu gwestiwn ar y cynnwys. Cytunwyd i drosglwyddo £7.5K o'r cyfrif cyredol i'r cyfrif wrth-gefn yn hytrach na'r £6K gytunwyd gan yr Is-bwyllgor. Cynnigiodd TAJ bod cynnwys y ddwy ddogfen yn dderbyniol a chywir ac fe eilwyd gan DP.<br><br>Cytunwyd hefyd i'r Clerc lunio Cynllun Gwaith ar gyfer cynnal a chadw Cae Gofeb ac Unedau Tan y Foel. Cytunodd BJ i edrych ar adnoddau Cae Gofeb ac i'r Clerc ofyn i GW edrych ar Unedau 1 a 2 Tan y Foel gan adrodd yn ôl i gyfarfod mis Ebrill.<br><br>Cyflog a Chostau Blynyddol Clerc<br>Adroddodd y Clerc nad oedd y costau blynyddol wedi eu hadolygu ers 2009 ac fe gyflwynodd ddadansoddiad o wariant dros y 12 mis diwethaf.<br><br>O ran cyflog, nododd ei bod wedi derbyn codiad yn 2019, i raddfa LC2 Pwynt 24 argymhelliad NALC, sef Cymdeithas Cenedlaethol Cynghorau Lleol ac yn gweithio 6 awr yr wythnos yn gyfredol.<br><br>Gadawodd DAW a'r Clerc y cyfarfod.<br><br>Cytunwyd:<br>• Codi oriau'r Clerc i 7.5 awr yr wythnos.<br>• Adolygu ei Swydd Ddisgrifiad<br>• Codi'r cyflog i Pwynt 28 LC2 sef £32,234<br>• Ol ddyddio'r codiad i Ebrill 2020<br>• Codi taliad costau blynyddol i £550 yf |
| **7.** | **Materion Cynllunio**<br>**DAG/2021/5 - Cais i bennu os oes angen caniatâd blaenorol ar gyfer codi sied amaethyddol ar dir yn Geirn, Carmel, Llanerchymedd**<br>Nodwyd bod y cais wedi ei gylchredeg eisoes ac mai'r penderfyniad oedd bod angen caniatad blaenorol. |
| **8** | **Unrhyw Fater Arall**<br><br>**Gwefan Grwp LlanNi** – cyfeiriodd y Clerc at wefan newydd i'r pentref wedi ei sefydlu gan Grwp LlanNi – lansio am 8am bore Gwener 9.4.21. Gwerthfawrogir pob cefnogaeth a chroeso i unrhyw un ymuno a Grwp |


Mrs Sydna Roberts sydnaroberts@btinternet.com
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383

| | |
|---|---|
| | LlanNi.<br>**Pwyllgor Safonnau CSYM –** Cyfeirodd y Clerc at Ebost gan Gadeirydd Pwyllgor Safonnau'r Cyngor Sir (a gylchredwyd eisoes) yn dwyn i sylw newyddlen y Pwyllgor.  Cadarnhaodd yr holl aelodau eu bod wedi nodi a derbyn y cynnwys dros ebost.<br>**Adolygu Aelodaeth Is Bwyllgorau** – ymlaen i gyfarfod mis Ebrill<br>*Daeth y cyfarfod i ben am 9.10* |


Mrs Sydna Roberts
sydnaroberts@btinternet.com
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn  LL71 8EG**
Ffôn:  01248  470383